**PANEL HEDDLU A THROSEDDU GWENT – TREFNIADAU'R**

**PANEL**

**CYFLWYNIAD**

1. Yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (Atodlen 6, Rhan 4, Paragraff 24), mae'n ofynnol creu 'Trefniadau'r Panel' ar gyfer sefydlu a chynnal Panel Heddlu a Throseddu.

**CRYNODEB**

2. Rhaid i Drefniadau'r Panel ddarparu ar gyfer y canlynol:

**Aelodaeth Panel Heddlu a Throseddu Gwent**

- Cyfnod swydd Aelodau penodedig ac Aelodau Cyfetholedig y Panel.
- Ymddiswyddo a diswyddo Aelodau penodedig ac Aelodau Cyfetholedig y Panel.
- Amodau ar gyfer ailbenodi Aelodau penodedig ac Aelodau Cyfetholedig y Panel.

**Hyrwyddo a Chynorthwyo Panel Heddlu a Throseddu Gwent**

- Rôl y Panel Heddlu a Throseddau a gaiff ei hyrwyddo.
- Cymorth gweinyddol a mathau eraill o gymorth a roddir i'r Panel Heddlu a Throseddu a'i Aelodau.
- Mewn perthynas â swyddogaethau'r Panel Heddlu a Throseddau, cymorth ac arweiniad a roddir i Aelodau'r awdurdodau lleol perthnasol, Aelodau byrddau gweithredol yr awdurdodau lleol a swyddogion yr awdurdodau lleol perthnasol.

**Lwfansau**

3. Gall Trefniadau'r Panel ddarparu ar gyfer:

- Talu lwfansau i Aelodau Panel Heddlu a Throseddu Gwent.

**Cydymffurfio â Threfniadau'r Panel**

4. Rhaid i'r canlynol gydymffurfio â Threfniadau'r Panel:

- Pob awdurdod lleol perthnasol; sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

- Pob Aelod o Banel Heddlu a Throseddu Gwent.

**TREFNIADAU'R PANEL**

**Aelodaeth Panel Heddlu a Throseddu Gwent**

5.1 Bydd y Trefniadau Panel canlynol yn berthnasol i Banel Heddlu a Throseddu Gwent:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – 2 Aelod
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Awdurdod Derbyn) – 3 Aelod
Cyngor Sir Fynwy – 2 Aelod
Cyngor Dinas Casnewydd – 3 Aelod
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – 2 Aelod

5.2 Bydd Panel Heddlu a Throseddu Gwent yn cyfethol 2 Aelod Cyfetholedig i'r Panel am gyfnod o bedair blynedd.

**Cyfnod Swydd**

5.3 Mater i bob awdurdod lleol sy'n enwebu fydd penderfynu ar gyfnod swydd yr Aelodau enwebedig, ond bydd yn rhaid cynllunio iddo bara o leiaf un flwyddyn gyngor. Y cyfnod swydd ar gyfer Aelodau Cyfetholedig fydd tan 31 Hydref ym mlwyddyn yr etholiad cyffredin nesaf ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

**Ymddiswyddo a Diswyddo Aelodau Penodedig ac Aelodau Cyfetholedig y Panel**

5.4 Gall unrhyw Aelod ymddiswyddo unrhyw bryd, drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Gadeirydd y Panel a'i awdurdod enwebu (os bydd hynny'n briodol).

5.5 Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn diswyddo unrhyw Aelod penodedig ar gais ei awdurdod enwebu unrhyw bryd a gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddiswyddo unrhyw Aelod penodedig unrhyw bryd.

5.6 Gellir diswyddo Aelod Cyfetholedig yn dilyn pleidlais drwy fwyafrif o aelodau'r Panel sy'n bresennol, ar yr amod bod yr Aelod wedi cael o leiaf bedair wythnos o rybudd o gynnig i'w ddiswyddo ac wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar y cynnig. Mae'r enghreifftiau o resymau dros ddiswyddo Aelod yn cynnwys bod yn absennol am dri chyfarfod yn olynol heb ganiatâd y Panel neu gael euogfarn droseddol (ond nid ydyn nhw wedi'u cyfyngu i'r rhesymau hyn).

**Amodau ar gyfer ailbenodi Aelodau penodedig ac Aelodau Cyfetholedig y Panel**

5.7 Bydd pob Aelod sydd o awdurdod lleol yn gymwys i gael ei ailbenodi pan ddaw ei gyfnod i ben. Nid oes cyfyngiad ar nifer y cyfnodau swydd y gellir eu cyflawni.

5.8 Cyfnod swydd Aelodau Cyfetholedig fydd tan 31 Hydref ym mlwyddyn yr etholiad cyffredin nesaf ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Rhaid i'r swyddi gael eu hailhysbysebu; fodd bynnag, ni fydd hyn yn atal Aelodau Cyfetholedig rhag gwneud cais am y swydd eto na chael eu hailbenodi.

5.9 Bydd y broses recriwtio a dethol ar gyfer cyfethol Aelodau yn cynnwys cyfnod rhesymol ar gyfer hysbysebu'r swyddi. Er mwyn adlewyrchu'r ardal ddaearyddol y mae'r Panel yn ei chynrychioli, cyn belled ag y bo'n ymarferol, caiff hysbysebion eu cyhoeddi yn y cyfryngau a thrwy ffynonellau eraill y mae gan drigolion yn ardal Heddlu Gwent fynediad cyfartal atyn nhw.

5.10 Bydd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau o leiaf bythefnos ar ôl dyddiad yr hysbyseb gyntaf.

5.11 Caiff pecynnau cais eu paratoi a'u darparu i'r rhai sy'n gofyn am ffurflen gais. Bydd y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd ac Aelod arall o'r Panel, gyda chymorth Swyddog Arweiniol y Panel, yn ystyried y ceisiadau yn erbyn meini prawf manyleb person y cytunwyd arni ac yn llunio rhestr fer yn unol â hynny.

5.12 Os na ddaw ceisiadau i law neu os na fydd y ceisiadau a geir yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd sylfaenol, caiff y swyddi gwag eu hailhysbysebu yn unol â'r adran hon. Bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Panel ac Aelod arall o'r Panel (y panel cyfweld), gyda chymorth Swyddog Arweiniol y Panel, yn cyfweld yr ymgeiswyr ar y rhestr fer.

5.14 Yn dilyn y cyfweliadau, bydd y panel cyfweld yn gwneud argymhellion i'r Panel. Wrth wneud yr argymhellion hynny, bydd y panel cyfweld yn ystyried cydbwysedd y Panel yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r sgiliau sy'n ofynnol i gyfoethogi'r Panel.

**Hyrwyddo a Chynorthwyo Panel Heddlu a Throseddu Gwent**

5.15 Caiff y Panel ei hyrwyddo drwy wefan arbennig (gyda dolenni priodol i wefannau perthnasol eraill) gan gynnwys gwybodaeth rôl a gwaith y Panel, Aelodaeth y Panel, holl bapurau'r Panel ac is-bwyllgorau'r Panel nad ydyn nhw’n gyfrinachol, datganiadau i'r wasg a chyhoeddiadau eraill.

5.16 Bydd yr Awdurdod Derbyn yn rhoi cymorth gweinyddol, arweiniad, cyngor a hyfforddiant i Aelodau'r Panel er mwyn eu helpu nhw i gyflawni swyddogaethau'r Panel. Bydd yr Awdurdod Derbyn yn sicrhau ei fod yn lledaenu gwybodaeth ac arferion gorau a ddarperir gan y Swyddfa Gartref.

5.17 Bydd yr Awdurdod Derbyn yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod gydag Aelodau Gweithredol, Aelodau Craffu neu Swyddogion awdurdodau perthnasol i esbonio a hyrwyddo gwaith Panel Heddlu a Throseddu Gwent.

**Lwfansau**

5.18 Caiff ffi ddyddiol ei thalu i Aelodau'r Panel. Bydd y gyfradd yr un fath â'r gyfradd ddyddiol lawn a bennir o bryd i'w gilydd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer Cadeirydd ac Aelod Cyffredin Cyfetholedig Pwyllgorau Safonau awdurdodau lleol. Caiff y ffi ddyddiol ei chapio ar uchafswm o chwe diwrnod y flwyddyn fesul Aelod o'r Panel. Gellir gwneud taliadau ychwanegol yn ôl disgresiwn os bydd angen bod yn bresennol mewn perthynas â chyfrifoldebau statudol. Caiff taliadau eu gwneud am amser mewn cyfarfodydd neu bresenoldeb mewn hyfforddiant/cynadleddau yn unig a byddan nhw'n cynnwys amser paratoi a theithio.

**Talu Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth**

5.19 Gellir hawlio lwfansau teithio ar gyfer 'dyletswyddau cymeradwy' a ddiffinnir fel a ganlyn:

(a) bod yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Panel neu unrhyw un o is-bwyllgorau'r Panel.
(b) cyflawni dyletswydd at ddiben cyflawni swyddogaethau'r Panel neu mewn perthynas â hynny.
(c) bod yn bresennol yn unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwyir gan y Panel.

5.20 Bydd cyfraddau hawliadau teithio yn gyson â chyfraddau milltiroedd CThEF.

5.21 Gall Aelodau hawlio am fathau eraill o gostau teithio (bysiau, trenau a thacsis) a bydd yn rhaid cyflwyno derbynebau priodol sy'n dangos y costau gwirioneddol iddyn nhw gydag unrhyw hawliadau. Dylai Aelodau bob amser ofalu eu bod nhw'n dewis y dull teithio mwyaf costeffeithiol.

5.22 Bydd cynhaliaeth ar gyfer llety dros nos a phrydau bwyd ar gael i Aelodau'r Panel tra byddan nhw'n cyflawni dyletswydd gymeradwy. Bydd y cyfraddau ar gyfer cynhaliaeth yr un fath ag a bennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer aelodau awdurdodau lleol. Rhaid cyflwyno derbynebau i ategu hawliadau.